**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**11 TACHWEDD 2020**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Ysgolion mewn categori Estyn**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

**1.1** Diweddaru aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran yr ysgolion sydd mewn Categori Statudol Estyn a Chategori Adolygu gan Estyn.

## 2.0 Cefndir

**2.1** Golyga'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda phandemig COVID-19 bod ysgolion yn wynebu ystod o heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'n debygol y bydd yr heriau hyn yn fwy mewn ysgolion sydd mewn categori statudol neu'r categori Adolygu gan Estyn.

**2.2** Yn ystod y cyfnod clo, mae'n naturiol bod ysgolion wedi canolbwyntio ar iechyd a lles eu dysgwyr, eu staff a chymuned yr ysgol, ynghyd â hybu parhad dysgu. Ataliwyd ymweliadau monitro GwE ac ymweliadau Estyn yn ystod y cyfnod hwn, gydag ysgolion yn cael cymorth ar faterion gweithredol ac ar gynllunio a darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol.

**2.3** Yn ddiweddar, hysbysodd Estyn yr ysgolion hynny mewn Categori Statudol y bydd ymgysylltu ag ysgolion yn ailddechrau, a hynny drwy gynnal ymweliad *'bugeiliol'* yn

ystod ail hanner y tymor. Bydd ymweliadau bugeiliol yn cynnwys trafodaeth broffesiynol efo arweinwyr ysgolion, ond ni fydd adroddiad ysgrifenedig, ffurfiol. Bydd yr ymweliad, ynghyd ag unrhyw adborth gan ysgolion ac AauLl, yn helpu Estyn i benderfynu ar ba bryd y bydd yn briodol ailgydio mewn monitro statudol, uniongyrchol. Ffactorau hanfodol unrhyw benderfyniad, fydd cynhwysedd yr ysgol i ddarparu addysg ar y safle i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a chynhwysedd arweinwyr i ymgysylltu â thîm monitro. Ar hyn o bryd, credir y bydd ymweliadau monitro yn ailddechrau yn gynnar yn nhymor y gwanwyn. Fodd bynnag, bydd sefyllfa sy'n newid o ddydd i ddydd efallai yn golygu ffurf 'wahaniaethol' o ymweliad ymgysylltu.

**2.4** I'r ysgolion hynny yng nghategori Adolygu gan Estyn, mae gofyn i awdurdodau lleol/consortia gyflwyno adroddiad cynnydd i Estyn. Gallai penderfyniad Estyn i dynnu ysgol o weithgarwch dilynol fod yn un a wneir o amgylch y bwrdd, neu gallai olygu ymweliad monitro pellach â'r ysgol. Cynhelir y broses hon fel arfer yn hwyr yn nhymor yr hydref, neu'n gynnar yn nhymor y gwanwyn. Hyd yma, ni ddaeth unrhyw ohebiaeth o ran y disgwyliadau ar gyfer 2020/21.

**3.0 Materion i gael sylw**

**3.1** Fel rhanbarth, rydym yn bryderus ynghylch ailarolygu'r ysgolion hyn, ac mae hyn wedi'i gyfleu i Estyn. Cafwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn am ystod o faterion gan gynnwys:

- A yw'r argymhellion a wnaed adeg yr arolygiad craidd dal yn berthnasol i sefyllfa bob ysgol sydd mewn categori?
- Pa feini prawf a meincnodau a ddefnyddir wrth arfarnu a dod i farn am safonau ar ddiwedd CA4/CA5, addysgu, dysgu, asesu a dilyniant, gwerthuso ac arweinyddiaeth?
- Sut ydym ni'n sicrhau cydnabyddiaeth ac ardystiad i ysgolion sydd wedi arddangos tystiolaeth o gynnydd cadarn yn erbyn llawer o'u hargymhellion hyd at gyfnod clo Covid Mawrth 2020, a sut ydym ni'n mesur y cyfnod rhwng mis Mawrth a Hydref 2020 wrth ddod i farn, gan bod ysgolion yn gweithredu dan set

o reolau a rheoliadau hollol wahanol, a ble mae bron bob un o'u dysgwyr wedi cael mynediad i'w haddysg drwy ddysgu o bell?

- Pa mor hyderus ydym ni y gall ysgolion fynd i'r afael yn gadarn ac yn effeithiol â'u hargymhellion ôl-arolwg, o gofio'r ffactorau arwyddocaol sydd wedi'u taflu atyn nhw yn sgil y sefyllfa Covid barhaus?
- Sut eir i'r afael â disgwyliadau o ran cynllunio a gweithredu CGOA os yw ysgolion yn wynebu cyfnod clo lleol/cenedlaethol llawn/rhannol arall?
- Sut gallwn ni ddangos y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion, yn ogystal ag mewn meysydd y tu hwnt i unrhyw argymhellion, yn ystod cyfnod pandemig hynod o heriol?

**3.2** Os nad yw'r meini prawf a'r meincnodau ar gyfer y meysydd uchod yn ystyried yr amgylchiadau heriol presennol yn sgil Covid, ac nad ydynt yn adlewyrchu'n deg ddisgwyliadau 'Canllawiau Gweithredol' a 'Chanllawiau Dysgu ac Addysgu' Llywodraeth Cymru ar ysgolion, y pryder yw y bydd llawer o'r ysgolion mewn categori neu weithgarwch dilynol yn cael eu cosbi yn ddiangen ac yn annheg, gan y bydd yn hynod o anodd iddynt ddangos cynnydd yn effeithiol yn erbyn llawer o feysydd allweddol eu hargymhellion.

**3.3** Yn y cyfnod anodd yma, ac er budd tegwch, cydraddoldeb a lles ein harweinwyr, ein staff a'n disgyblion, credwn yn gryf y dylai Estyn ystyried rhoi 'amnest' i bob ysgol mewn categori, ond bod pob sefydliad yn cytuno i arolygiad llawn ymhen 18 mis. Byddai penderfyniad o'r fath hefyd yn sicrhau na fyddai hygrededd fframwaith arolygu Estyn yn cael ei danseilio na'i herio. Byddai pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer yr ysgolion hyn yn cael ei gytuno am y cyfnod cyn yr arolygiad llawn, y gallai Estyn gytuno arno a'i fonitro.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor drafod a nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y camau nesaf posibl.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymrwymiadau ariannol ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn, felly hyderaf y bydd unrhyw gymorth ychwanegol a ddarperir i ysgolion yng nghyd-destun ymweliadau Estyn yn cael ei flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.